Cyngor
Meddygol
Cyffredinol



# Cynllun Busnes

2025

# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2025 i gefnogi ein strategaeth gorfforaethol

Ein gweledigaeth ar gyfer 2030 yw bod yn rheoleiddiwr effeithiol, perthnasol a thosturiol ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ac fel cyflogwr. Ein rôl graidd yw darparu rheoleiddio hyblyg ac ymatebol sy'n diogelu cleifion, yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o safon, ac sy'n diwallu anghenion system iechyd y DU. I wneud hyn, rydym yn gwneud y canlynol:

- gosod y safonau ar gyfer gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol y mae angen i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia eu bodloni
- sicrhau bod meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia yn cael yr addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal da a diogel i gleifion
- cadarnhau pwy sy'n gymwys i weithio fel meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anesthesia yn y DU a gweithio gyda nhw a'u cyflogwyr i gadarnhau eu bod yn cadw'n gyfredol ac yn bodloni'r safonau proffesiynol a osodwyd gennym
- rhoi arweiniad a chyngor i helpu meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt
- ymchwilio pan fo pryderon fod diogelwch cleifion mewn perygl, neu os yw hyder y cyhoedd yn ein meddygon, ein cymdeithion meddygol neu ein cymdeithion anesthesia mewn perygl, a chymryd camau os oes angen.

O gofio'r ansicrwydd a'r heriau digynsail sy'n wynebu system gofal iechyd y DU, byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

- gwrando ar brofiadau ac anghenion cleifion, y cyhoedd a'n hunigolion cofrestredig fel sail i'n blaenoriaethau
- defnyddio tystiolaeth a data i chwarae ein rhan i'r eithaf o ran ymateb i'r heriau hynny.



# Ein ffocws yn 2025

Rydym bellach ym mlwyddyn olaf ein strategaeth gorfforaethol bum mlynedd bresennol (2021–2025). Ein ffocws yn 2025 fydd adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud hyd yma, canolbwyntio ein hymdrechion ar ein meysydd blaenoriaeth a bwrw ymlaen â'r gwaith i ddatblygu ein strategaeth gorfforaethol nesaf. Bydd y strategaeth gorfforaethol nesaf yn rhedeg o 2026-2031 a bydd yn parhau i gefnogi gwaith i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2030.

Mae ein hasesiad o gynnydd yn dangos ein bod wedi dechrau, ac mewn rhai achosion wedi cwblhau, llawer o'r gwaith arfaethedig sy'n ymwneud â'r strategaeth gorfforaethol bresennol. Rydym wedi cyflwyno'r Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA) a bydd 2025 yn nodi ein blwyddyn gyntaf fel rheoleiddiwr amlbroffesiynol wrth i ni ddechrau rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia. Bydd rheoleiddio tosturiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Ac rydym yn disgwyl gweld y prosiectau a'r gweithgareddau a ddechreuwyd gennym o dan y thema *Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig* a *Datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy* yn dechrau ennill momentwm.

Fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r strategaeth bresennol ddod i ben y bydd llawer o'r effaith a'r canlyniadau hirdymor yn cael eu gwireddu'n llawn. Mae hyn yn wir yng nghyswllt rhai o'n huchelgeisiau a'n prosiectau newid mawr, fel:

- diwygio rheoleiddio
- gwreiddio prosesau rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia ym musnes rheoleiddio'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
- ein targedau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym nawr mewn sefyllfa gryfach i ystyried y cyfleoedd sydd o'n blaenau, fel y rheini sy'n cael eu darparu drwy ddiwygio rheoleiddio, ein rôl fel rheoleiddiwr amlbroffesiwn yn y dyfodol, a sut gallwn ni gydweithio ag eraill i'n gwneud ni'n fwy effeithiol. Byddwn yn defnyddio ein sefyllfa i lywio ac i ddylanwadu ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws pedair gwlad y DU mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu.

# Cyflawni ein swyddogaethau statudol

Yn 2025, mewn perthynas â meddygon, rydym yn disgwyl gwneud y canlynol:

- prosesu tua **43,000** o argymhellion ail-ddilysu
- cefnogi tua **27,000** o bobl sy'n gwneud cais am y tro cyntaf i ymuno â chofrestr y DU
- adolygu tua **11,200** o bryderon a godwyd gyda ni
- Cymryd camau pellach mewn ymateb i bryderon ar ffurf cynnal oddeutu **300** o wrandawiadau'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol
- ymweld â **15** o ysgolion meddygol newydd neu raglenni meddygol newydd a defnyddio ein proses sicrhau ansawdd ragweithiol i adolygu **14** o sefydliadau hyfforddi ôl-raddedigion a **39** o ysgolion meddygol sefydledig
- adolygu **106** o gwricwla ôl-radd a'u rhaglenni asesu i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i fodloni ein safonau
- ymateb i oddeutu **475** o ymholiadau moesegol mewn perthynas â'n safonau proffesiynol
- cynnal dros **1,000** o ddigwyddiadau, gan ymgysylltu â dros **45,000** o feddygon a myfyrwyr
- cynnal dros **150** o ddigwyddiadau Croeso i Ymarfer yn y DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi dros **11,250** o raddedigion meddygol rhyngwladol sy'n newydd i ymarfer yn y DU
- mynd at **65,000** o feddygon dan hyfforddiant a **55,000** o hyfforddwyr i ddeall eu barn am hyfforddiant, ac am ansawdd addysg feddygol i raddedigion drwy ein harolwg hyfforddiant cenedlaethol.

Byddwn yn datblygu ein targedau ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia wrth i ni wreiddio'r gwaith o'u rheoleiddio.

# Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig

## Diwygio rheoleiddio

Rydym yn symud i gam nesaf ein gwaith gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i weithredu newidiadau i'n deddfwriaeth i ddiwygio'r ffordd rydym yn rheoleiddio. Y prif ffocws ar gyfer eleni fydd gweithio ochr yn ochr â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth iddynt ddrafftio ac ymgynghori ar ddeddfwriaeth newydd a fydd yn disodli Deddf Feddygol 1983. Yna, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r fframwaith cyfreithiol, y rheolau, y polisïau a'r prosesau newydd a fydd yn berthnasol i'n holl swyddogaethau rheoleiddio. Bydd y gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwn a chyflwyno'r newidiadau hyn yn parhau tan 2026 a thu hwnt.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynghylch beth fydd y newidiadau deddfwriaethol yn ei olygu i'r ffordd rydym yn rheoleiddio, ac os oes modd, i fabwysiadu dull cyd-gynhyrchu o ddylunio rhai o'n prif brosesau.

Bydd diwygio rheoleiddio yn newid y ffordd rydym yn rheoleiddio ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni bennu ein rheolau ein hunain a newid y ffordd rydym yn gweithio yn y dyfodol pan fydd tystiolaeth yn awgrymu bod modd gwneud gwelliannau. Bydd hyn yn ein galluogi i fod yn fwy cefnogol, cynhwysol a thosturiol yn y ffordd rydym yn rheoleiddio. Bydd hefyd yn darparu mwy o gysondeb rhyngom ni, a rheoleiddwyr eraill.

## Rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia

Yn 2025, ein prif ffocws fydd cael cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia presennol a rhai newydd gymhwyso i fod ar ein rhestr. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliannau mewn hyfforddiant i gymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia drwy ein prosesau sicrhau ansawdd a chymeradwyo addysg. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i wreiddio ein fframwaith rheoleiddio ar gyfer y gweithwyr proffesiynol hyn, gan gynnwys datblygu polisïau ar gyfer ail-ddilysu.

## Parhau i drawsnewid ein rhyngweithio â chwsmeriaid

Byddwn yn parhau â'n gwaith i weithredu system amlsianel fodern yn y Ganolfan Gyswllt, ar ôl cyflwyno system ffôn newydd yn llwyddiannus yn 2024. Yn 2025, byddwn yn cyflwyno nodweddion fel sgwrsio gwell ar y we a negeseuon ar ffonau symudol i gynyddu a gwella'r ffyrdd y gall ein cwsmeriaid gysylltu â ni. Bydd y newidiadau hyn, ochr yn ochr â gwelliannau i'r ffordd y mae'r Ganolfan Gyswllt yn gweithredu, yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu profiad eithriadol i'n holl gwsmeriaid gyda phob un rhyngweithiad.

## Statws gweithiwr cydymaith

Byddwn yn datblygu ein systemau a'n prosesau i hwyluso gweithredu statws gweithwyr ar gyfer grwpiau cymwys.

# Datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy

## Poblogaeth yr Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA)

Rydym wedi ymgorffori'r Asesiad Trwyddedu Meddygol newydd yn yr arholiadau terfynol ar gyfer meddygon sydd newydd gymhwyso yn y DU ac rydym yn ei gyflwyno i raddedigion meddygol rhyngwladol. Mae'r asesiad yn gwella cysondeb o ran lefelau'r wybodaeth graidd, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan feddygon sy'n ymarfer yn y DU.

Byddwn yn cyflwyno system fonitro i wirio cydymffurfiad parhaus yr asesiad ac yn 2025 byddwn yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o fap cynnwys yr Asesiad Trwyddedu Meddygol, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2019, ar ôl ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid.

Mae'r map cynnwys yn ddogfen fyw ac rydym wedi ymrwymo i'w ddiweddaru gyda diwygiadau amserol i sicrhau ei fod yn parhau i nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau craidd sy'n hanfodol i feddyg sydd newydd gymhwyso fod yn barod ar gyfer ymarfer yn ddiogel, rheoli ansicrwydd a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf wrth ddechrau ar ei ymarfer meddygol yn y DU.

## Ymgysylltu ar ddyfodol addysg a datblygu gyrfa

Rydym yn parhau â'n gwaith i adolygu'r fframwaith addysg sy'n nodi ein disgwyliadau ar gyfer ansawdd a deilliannau addysg i adlewyrchu anghenion poblogaeth sy'n newid yn y DU.

Yn 2025, bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n helaeth ledled y DU â'r sefydliadau rydym yn gweithio'n agos â nhw, partneriaid eraill yn y sector, a'r bobl a fydd yn elwa o'r newidiadau – meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anesthesia, cleifion a'r cyhoedd.

Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn y dyfodol yn helpu i sbarduno gwelliannau ac arloesedd y mae mawr eu hangen yn y sector, gan barhau i ddiogelu'r cyhoedd ar yr un pryd. Wrth wneud hynny, mae angen i'r sector wneud y canlynol:

- gwella'r gefnogaeth ar gyfer cronfa fwy a mwy amrywiol o addysgwyr meddygol amlbroffesiynol
- cefnogi newidiadau mewn addysg cyn-gymhwyso drwy annog arloesedd ac amrywiaeth mewn rhaglenni sy'n bodloni ein safonau
- gwneud llwybrau gyrfa ôl-gymhwyso yn fwy hygyrch i weithlu sy'n newid fel eu bod yn hyblyg ac yn haws eu dilyn – bydd hyn yn cynnwys ystyried rôl asesu, annog 'cyffredinoliaeth' a gwella ansawdd a chysondeb mewn dysgu gydol oes.

# Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel

## Canlyniadau rheoleiddio tecach

Rydym yn parhau i gyflawni yn erbyn y nodau yn ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2021-2025 i feithrin diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth rydym yn ei wneud a sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhan annatod o'n gwaith fel rheoleiddiwr a chyflogwr. Mae hyn yn cynnwys parhau i gyflawni ein dyheadau o ran cydraddoldeb. A gweithio gydag eraill ar draws y system i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog ac effaith anfantais a gwahaniaethu hiliol.

Mae gennym bedwar prosiect a fydd yn ein helpu i ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn ein dyheadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a sicrhau bod tegwch yn parhau i fod yn ganolog i'n gwaith. Ein huchelgais yw gwneud yn siŵr bod ein gwaith ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gwella ymddiriedaeth a hyder yn y Cyngor Meddygol Cyffredinol fel sefydliad teg.

- Byddwn yn parhau i sicrhau bod tegwch yn ganolog i'n gwaith drwy ddileu gwahaniaethau mewn atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer cyflogwyr.
- Rydym yn bwrw ymlaen â'r rhaglen waith i ddileu gwahaniaethu, anfantais ac annhegwch mewn llwybrau addysg a hyfforddiant erbyn 2031.
- Byddwn yn parhau i weithredu canfyddiadau adolygiad tegwch rheoleiddiol mewnol 2022 i wella'r mesurau diogelu a'r rheolaethau sydd gennym ar waith er mwyn sicrhau tegwch a lliniaru rhagfarn yn ein penderfyniadau rheoleiddio uchel eu heffaith.
- Byddwn yn dechrau prosiect i wella sut rydym yn casglu, yn defnyddio ac yn monitro data amrywiaeth ar draws ein gweithgareddau rheoleiddio. Bydd hyn yn gwella ansawdd ein data amrywiaeth. Bydd hefyd yn ein galluogi i gymryd camau i leihau'r posibilrwydd o rwystrau neu annhegwch yn ein gweithgareddau ar gyfer grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

# Buddsoddi yn ein pobl i gyflawni ein huchelgeisiau

## Parhau i ddenu a chadw talent

Byddwn yn parhau i ddenu a chadw talent amrywiol, gan gynnwys cynnal pecyn cystadleuol ar gyfer recriwtiaid newydd a staff presennol, a meithrin gwytnwch ar gyfer ein gofynion o ran sgiliau yn y dyfodol.

Byddwn yn sicrhau bod ein harferion cyflogaeth o ran tâl, perfformiad, dilyniant ac ymgysylltu yn deg ac yn gyson. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn Cynnyrch Cynllunio Adnoddau Menter (ERP) newydd ar gyfer ein prosesau Adnoddau Dynol, Cyllid, Cyflogres, Bilio Tanysgrifiadau a hunanwasanaeth Gweithwyr.

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**
Gwefan: **gmc-uk.org**
Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i ddefnyddio’r gwasanaeth Cyfleu Testun.

## Ymunwch â’r sgwrs

**@gmcuk** **facebook.com/gmcuk**
**linkd.in/gmcuk** **youtube.com/gmcuktv**

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar **gmc@gmc-uk.org**.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

Cyhoeddwyd Ionawr 2025
© 2025 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu’r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Cyngor Meddygol Cyffredinol dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi’i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a’r Alban (SC037750).

Cod: GMC/BPW25/0125